Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol David Hughes

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GDD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2025-2026 rhoddwyd i Ysgol David Hughes ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o £121,900.

Yn Ysgol David Hughes mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Môn i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Gyflogi Swyddog Bugeiliol a Swyddog Gweinyddol Bugeiliol er mwyn rhoi cefnogaeth i ddysgwyr bregus a'u teuluoedd er mwyn sicrhau ein bod yn:
    i) Lleihau'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr bregus a'u cyfoedion
    ii) Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol disgyblion er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad ac er mwyn eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol a gwydn
- Rhoi cefnogaeth benodol i ddysgwyr bregus o flwyddyn 7 -11 a sicrhau eu bod yn cael mynediad at weithgareddau allgyrsiol a chwricwlaidd ee anogaeth dysgu a gwaith y penaethiaid blwyddyn
- Gyflogi Swyddog Presenoldeb er mwyn cael gwasanaeth bob dydd o'r wythnos i wella presenoldeb dysgwyr bregus

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.